

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Gorffennaf 2009

COMPARTMENTAU
I DDIOGELU RHAG
FFLIW ADAR A CHLEFYD NEWCASTLE
MEWN CWMNIAU MAGU DOFEDNOD
YM MHRYDAIN FAWR

MANYLEBAU AR GYFER PROTOCOLAU
RHEOLI MEWN FFERMYDD HEIDIAU

“Compartment means an animal subpopulation contained within one or more establishments under a common biosecurity management system with a distinct health status with respect to specific diseases for which required surveillance, control and biosecurity measures have been applied for the purpose of international trade” (Mae compartment yn golygu isboblogaeth o anifeiliaid a gaiff ei chynnwys mewn un neu ragor o sefydliadau dan system reoli bioddiogelwch gyffredin ac â statws iechyd arbennig o ran afiechydol penodol ac y cymhwyswyd y mesurau gwyliadwraeth, rheoli a bioddiogelwch gofynnol at ddibenion masnach ryngwladol)

Cod Iechyd Anifeiliaid Daearol OIE, Rhifyn 2008

MANYLEBAU AR GYFER PROTOCOLAU RHEOLI MEWN FFERMYDD HEIDIAU

NODER: Mae'r paragraffau mewn print trwm ond yn berthnasol i Safon Well Prydain Fawr. Mae paragraffau mewn print arferol yn berthnasol i Safon yr UE a Safon Well Prydain Fawr.

Diffiniadau

Ystyr "cwmni" yw'r cwmni sy'n gwneud y cais am statws compartment.

Ystyr "cynhyrchydd" yw'r fenter sy'n cynhyrchu ac yn darparu'r deunydd gwasarn (Adran 1), neu'n cynhyrchu ac yn darparu'r porthiant neu gyfraniad arall (Adrannau 4 a 7).

Ystyr "aml-oedran" yw safle lle nad oes cyfnod pan fydd y safle cyfan yn hollol ddiboblogedig. Nid yw'n cyfeirio at safle lle mae'r adar i gyd o oedrannau gwahanol, ond caiff ei redeg ar sail 'cyflwyno fesul cam, allan gyda'i gilydd' (Adran 2).

Ystyr "aml-adeiladu" yw safle lle mae mwy nag un sied adar, ac ni chânt eu cysylltu gan gynteddau sydd wedi'u hamgáu'n gyfan gwbl.

Ystyr "Cyfnod Risg Uwch" yw unrhyw amser pan gadarnhawyd bod achosion o ffluiw adar neu glefyd Newcastle ym Mhrydain Fawr; neu pan fo'r fferm heidiau yn rhan o barth diogelwch, gwyliadwriaeth neu gyfyngiadau'r UE (Adran 5).

(Noder, ni waeth a oes statws compartment, bydd pob safle'n aros o dan amodau rheoliadau rheoli clefydau cyffredinol o dan ddeddfwriaeth genedlaethol a'r UE.)

Ystyr "Gweithredwr Allanol" yw cwmni rheoli cnofilod annibynnol sydd â chontract gyda'r compartment i reoli cnofilod ar y safle (Adran 13).

Ystyr "Ymwelydd" yw unrhyw unigolyn sy'n cael mynediad i safle na chaiff ei gyflogi gan y cwmni i weithio ar y safle hwnnw fel ei brif safle gwaith. Noder bod hyn felly yn golygu y caiff cyflogai cwmni sydd â'i brif safle gwaith mewn man arall ei ddiffinio fel ymwelydd a rhaid iddo felly lofnodi'r cofnod ymwelwyr yn unol â hynny. (Adran 11).

Ym mhob un o'r Adrannau canlynol, rhaid i Brotocol rheoli ysgrifenedig y Cwmni gynnwys o leiaf y darpariaethau a restrir.

1. DEUNYDD SARN: CYNHYRCHU, CLUDO, STORIO A THRIN

1.1 Mae'n rhaid i'r cynhyrchydd naill ai fod o dan berchnogaeth a rheolaeth y cwmni, neu rhaid bod contract ysgrifenedig rhwng y

cwmni a'r cynhyrchydd yn nodi manylion yr amodau cynhyrchu, trin a chludo.

- 1.2 **Rhaid nodi manylion y math o ddeunydd sarn (e.e. gwellt, crafion pren ac ati).**
Yn achos crafion pren, ystyrir bod y perygl o halogi gyda'r feirws fflw adar mor fach nad oes angen triniaeth firwsleiddiol. Yn achos gwellt, ystyrir bod storio am gyfnod o o leiaf dau fis yn ddigonol i sicrhau y caiff feirysau fflw adar eu hannatureiddio.
- 1.3 Rhaid cyflwyno asesiad risg y cwmni, gan roi rhesymau pam mae'r cwmni'n credu nad oes fawr ddim risg o'r deunydd sarn, neu pam na fydd triniaeth firwsleiddiol yn angenrheidiol.
- 1.4 Rhaid i'r protocol ddisgrifio gweithdrefnau sydd gan y cwmni i archwilio'r gweithdrefnau cynhyrchu, trin a chludo yn safle'r cynhyrchydd, gan gynnwys amlder yr archwiliadau.
- 1.5 Yn syth ar ôl cynhyrchu dylid trin neu becynnu'r deunydd sarn yn briodol, a'i storio cyn cludo er mwyn atal halogi gan adar neu fermin.
- 1.6 Rhaid cludo'r deunydd i safle'r compartment dan amodau lle y caiff ei ddiogelu rhag cael ei halogi gan adar neu fermin.
- 1.7 Rhaid storio'r deunydd yn safle'r compartment o dan amodau lle y caiff ei ddiogelu rhag cael ei halogi gan adar neu fermin.
- 1.8 Pan ddaw'r amser i ddefnyddio'r deunydd sarn, rhaid ei drin a'i osod y tu fewn i gytiau'r adar gan ddefnyddio dulliau a fydd yn atal halogi gan adar neu fermin.

2. DIHEINTIO'R CYTIAU ADAR

- 2.1 **Os yw'r safle'n un aml-oedran, disgrifiwch y gweithdrefnau ar gyfer atal y timau dal adar a thimau glanhau, a'u cerbydau, rhag cyrraedd gweddill y safle.**
- 2.2 Gweithdrefn ar gyfer symud a chael gwared ar sarn.
- 2.3 **Disgrifiwch y prosesau corfforol o gael gwared ar sailm, o olchi, o ddadheintio, ac o sychu.**
- 2.4 **Nodwch y math o ddiheintydd a ddefnyddir, ei grynhoad, a'r dull o'i ddefnyddio.**

- 2.5 **Gweithdrefnau cynnal a chadw arferol i'w gweithredu yn ystod amser gwag: e.e. edrych am grynoadau pryfed, gwirio'r system atal adar, edrych ar gyflwr y to a sicrhau ei fod yn gyfan, cynnal a chadw'r systemau awyru.**

3. DIHEINTIO'R OFFER Y GELLIR EU DEFNYDDIO ETO

- 3.1 Nodwch yr eitemau o offer perthnasol (e.e. cewyll dal).
- 3.2 Nodwch leoliad y weithdrefn lanhau (gallai fod lleoliadau a gweithdrefnau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o offer).
- 3.3 Disgrifiwch y broses ddiheintio.
- 3.4 **Nodwch y math o ddiheintydd a ddefnyddir a'i grynhoad.**
- 3.5 Lleoliad a dull storio offer ar ôl diheintio a chyn eu defnyddio, fel y caiff eu diogelu rhag cael eu halogi.

4. PORTHANT CYNHYRCHU, CLUDO, STORIO A THRIN

- 4.1 **Mae'n rhaid i'r cynhyrchydd naill ai fod o dan berchnogaeth a rheolaeth y cwmni, neu rhaid bod contract ysgrifenedig rhwng y cwmni a'r cynhyrchydd yn nodi manylion yr amodau cynhyrchu, trin a chludo.**
- 4.2 Rhaid i'r cwmni gyflwyno asesiad risg, gan roi rhesymau pam mae'r cwmni'n credu nad oes fawr ddim risg o'r deunydd porthiant.
- 4.3 Disgrifiwch weithdrefnau'r cwmni i archwilio'r gweithdrefnau cynhyrchu, trin a chludo yn safle'r cynhyrchydd, gan gynnwys amllder yr archwiliadau.
- 4.4 **Rhaid nodi manylion y broses gynhyrchu, gan nodi'r cynnyrch terfynol (e.e. peledi, stwnsh ac ati).**
- 4.5 **Rhaid nodi manylion amodau'r driniaeth wres, gan gynnwys y tymheredd targed a'r cyfnod amser gofynnol. Mae OIE yn argymhell 70°C am 3.5 eiliad, neu 73.9°C am 0.51 eiliad ar gyfer dinistrio feirysau ffliw adar. Mae'r UE yn nodi 70°C ond nid yw'n nodi am faint o amser.**
- 4.6 **Yn ystod y broses gynhyrchu ac ar ei hôl rhaid trin a storio porthiant drwy system (taradrau, cynwysyddion ac ati) sydd naill ai'n benodol i'r cwmni hwn, neu sydd wedi ei glanhau'n drwyadl ers iddi gael ei defnyddio diwethaf naill ai ar gyfer porthiant heb fod o'r un safon, neu nas bwriadwyd ar gyfer y cwmni.**

- 4.7 **Er mwyn cludo o'r safle cynhyrchu i safle'r cwmni rhaid cludo'r porthiant mewn cerbydau sydd naill ai'n benodol i'r cwmni hwn, neu sydd wedi eu glanhau'n drwyadl a'u diheintio ers iddynt gael eu defnyddio diwethaf naill ai ar gyfer porthiant heb fod o'r un safon, neu nas bwriadwyd ar gyfer y cwmni.**
- 4.8 Rhaid trin a storio'r porthiant ar safle'r compartment o dan amodau lle y caiff ei ddiogelu rhag cael ei halogi gan adar neu fermin.
- 4.9 Rhaid i'r system a ddefnyddir i drosglwyddo'r porthiant o'r storfa i'r cytiau adar sicrhau y caiff ei ddiogelu rhag cael ei halogi gan adar neu fermin.

5. CYFNODAU O RISG UWCH: RHAGOFALON YCHWANEGOL

- 5.1 **Ymwelwyr: Os bu achos o ffliw adar pathogenig iawn o fewn 50km i'r safle yn y tri mis diwethaf, dylid gwahardd pob ymwelydd, heblaw am y rheiny sy'n angenrheidiol i les a goroesiad yr adar. Rhaid gohirio'r gwaith cynnal a chadw arferol a wneir gan bersonél allanol. Fodd bynnag ni fydd y gwaharddiad yn gymwys i ymweliadau swyddogol gan swyddogion yr awdurdodau milfeddygol at ddibenion rheoli clefydau neu swyddogaethau statudol eraill.**
- 5.2 **Cerbydau: Os bu achos o ffliw adar pathogenig iawn o fewn 50km i'r safle yn y tri mis diwethaf, dylid gwahardd mynediad i'r safle i bob cerbyd, heblaw mewn achosion o angen eithriadol a brys. Dylid anfon cerbydau'r cwmni sydd angen ymweld â'r safle, e.e. ar gyfer casglu wyau, drwy ardaloedd sy'n ddigon pell o'r parthau a heintwyd neu yr amheuwyd eu bod wedi'u heintio. Dylid adolygu'r gweithdrefnau dadheintio cerbydau a'u gweithredu'n amlach os oes angen.**
- 5.3 **Dosbarthu Porthiant: : Os bu achos o ffliw adar pathogenig iawn o fewn 50km i'r safle yn y tri mis diwethaf, dylid gwneud trefniadau gyda'r cwmni porthiant i ddadheintio'r lorïau oddi ar y safle, ac iddynt ymweld â safle'r compartment yn gyntaf cyn dosbarthu unrhyw nwyddau eraill. Cymhwyso dadheintio ychwanegol cyn cael mynediad i'r safle, fel uchod.**
- 5.4 **Symudiadau Staff ac Offer rhwng safleoedd Compartment: Os bu achos o ffliw adar pathogenig iawn o fewn 50km i'r safle yn y tri mis diwethaf, rhaid gwahardd unrhyw symudiadau heblaw ei fod yn hollol angenrheidiol. Dylid trin safleoedd gwahanol fel unedau unigol hyd y gellir.**

- 5.5 Profion labordai: rhaid cynyddu amllder profion seroleg mewn heidiau dodwy i lefel ofynnol Rheoliad xxxx/2009 yr UE o leiaf, sef:
- i. Os cadarnhawyd achosion o ffliw adar pathogenig iawn ym Mhrydain Fawr yn y chwe mis diwethaf, dylid cynnal profion seroleg ar 20 o adar ym mhob safle compartment o leiaf bob tri mis.
 - ii. Os yw safle'r compartment o fewn ardal â chyfyngiadau symud yn unol â deddfwriaeth yr UE, dylid gwneud profion seroleg o fewn wythnos i'r achosion o glefydau yn ymddangos a phob 21 diwrnod wedi hynny ar o leiaf 20 o adar ar y safle,
a phroffion feiroleg ar 20 o swabiau o'r tracea/oroffaryncs ac 20 o swabiau cloacol ar yr un amseru neu'r un mor aml, hefyd broffion feiroleg ar bum aderyn sâl neu farw (os yw'n bresennol) ar yr un amseru neu'r un mor aml, ac ehangu'r wylidwriaeth glinigol.

AC, yn ychwanegol i'r uchod,

Os cadarnhawyd achos o ffliw adar pathogenig iawn o fewn 50km i'r safle compartment yn y tri mis diwethaf, rhaid cynyddu'r profion seroleg i 20 o adar y gofod awyr bob wythnos.

- 5.6 Asesu Risg i'r Compartment cyfan: mewn achos o gompartmentau sy'n cynnwys mwy nag un safle, rhaid adolygu strwythur cyfan y compartment er mwyn asesu lefelau uwch y risg i safleoedd eraill oddi mewn iddo, a chymryd mesurau priodol.
- 5.7. Cyfarwyddiadau i reolwr y compartment gadarnhau'n ysgrifenedig i Defra o leiaf bob 14 diwrnod i'r gweithdrefnau uchod gael eu cynnal, a bod holl ganlyniadau profion y labordai wedi bod yn negyddol. I'w hanfon naill ai drwy'r post i Poultry Section, Animal Health, Hadrian House, Wavell Drive, Carlisle CA1 2TB, neu drwy e-bost i LiveAnimalExports.Carlisle@animalhealth.gsi.gov.uk.

6. PROFION LABORDAI AR GYFER MONITRO ARFEROL HEIDIAU

RHAN I. FFLIW ADAR

- 6.1 Dylid cynnal profion seroleg arferol ar bob safle compartment o leiaf unwaith bob chwe mis.
Rhaid cymryd 20 o adar ar hap ar y safle.
Rhaid cyflwyno'r samplau i'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol (yr Asiantaeth).
Yr Asiantaeth fydd yn penderfynu ar y math o broffion serolegol.
Mae hyn yn unol â Rheoliad xxx/2009 yr UE.

- 6.2 **At hynny bydd y compartment yn cynnal profion serolegol ychwanegol drwy ddefnyddio naill ai'r Asiantaeth neu labordy achrededig ar gyfer profion seroleg fflw adar o dan ISO 17025. Y sail ystadegol ar gyfer samplu a argymhellir yw 95% hyder/25% nifer achosion. Byddai hyn yn dangos uchafswm o samplau o 11 o adar y gofod awyr. (Noder bod y ffigurau hyn yn berthnasol i adar a gedwir mewn system llawr ysgubor cymysgu rhydd ar y sail bod y feirws yn debygol o ledaenu'n gyflym iawn; mae angen safonau ystadegol uwch ar gyfer adar a gedwir mewn cewyll).**
- 6.3 **Amllder samplu: Rhaid samplu heidiau magu o leiaf unwaith yn y 28 diwrnod cyn dechrau dodwy.**
- Rhaid samplu heidiau dodwy (fesul gofod awyr) o leiaf bob 28 diwrnod (ar y sail bod hyn yn cyfateb i gyfnod magu'r clefyd ac ychydig ddyddiau yn y storfa wyau).**
- 6.4 Gweithdrefnau ar gyfer datrys canlyniadau amhendant: cyfeirio'r samplau at yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol.
(Gellir ystyried bod y canlyniadau amhendant a gyfeiriwyd at yr Asiantaeth, a'u cofnodi'n negyddol ganddi, yn ganlyniadau negyddol a gadarnhawyd a'u cofnodi felly).

Rhan II. CLEFYD NEWCASTLE

- 6.5 **Disgrifiwch y drefn frechu: amllder y brechu, math o frechlyn, sut y caiff ei weinyddu.**
- 6.6 **Os yw'r cwmni'n cynnal ymarfer samplu er mwyn cadarnhau'r ymateb dymunol i'r imiwnedd, rhowch fanylion (nid yw'r samplu hwn yn orfodol).**
- 6.7 **Os na chaiff yr heidiau eu brechu, rhowch fanylion seroleg tebyg i'r rhai ar gyfer Fflw Adar.**

7. CYFRANIAD AMRYWIOL (e.e. grit calsiwm, cragen wystrysen, storfa borthorol a defnyddiau traul): CYNHYRCHU, CLUDO, STORIO A THRIN

- 7.1 Rhaid cyflwyno asesiad risg y cwmni, gan roi rhesymau pam mae'r cwmni'n credu nad oes fawr ddim risg o'r eitemau hyn, neu pam na fydd triniaeth firwleiddiol yn angenrheidiol.
- 7.2 **Rhaid nodi manylion y broses, gan nodi'r cynnyrch terfynol.**

- 7.3 **Rhowch fanylion unrhyw driniaeth dadheintio neu sterileiddio, e.e. tymheredd targed a chyfnod amser gofynnol, os ydynt yn berthnasol.**
- 7.4 Rhaid gosod yr eitem mewn pecyn a fydd yn ei ddiogelu rhag cael ei halogi gan adar neu fermin.
- 7.5 Rhaid cludo a storio'r eitem ar safle'r compartment dan amodau lle y caiff ei ddiogelu rhag cael ei halogi gan adar neu fermin.

8. MONITRO CYNHYRCHU A MARWOLAETHAU

Rhan I. MARWOLAETHAU

- 8.1 Gweithdrefn cofnodi marwolaethau'n ddyddiol i'w dilyn gan reolwr y safle
- 8.2 Sut a lle y cedwir y cofnod dyddiol
- 8.3 Ystod arferol y cyfraddau marwolaeth a ddisgwylir.
- 8.4 Lefelau gweithredu: rhaid rhoi gwybod yn syth i filfeddyg y cwmni neu lefel reoli uwch arall am unrhyw wyriad sylweddol neu anesboniadwy o'r cyfraddau marwolaeth a ddisgwylir.

Rhan II. CYNHYRCHU

- 8.5. Y weithdrefn ar gyfer cofnodi ffigurau twf a pha mor aml y dylai rheolwr y safle wneud hyn
- 8.6 Sut a lle y cedwir y cofnod.
- 8.7 Ystod arferol y cyfraddau twf a ddisgwylir.
- 8.8 Lefelau gweithredu: rhaid rhoi gwybod yn syth i filfeddyg y cwmni neu lefel reoli uwch arall am unrhyw wyriad sylweddol neu anesboniadwy o'r perfformiad twf a ddisgwylir.

9. SAFLEOEDD AML-OEDRAN: YCHWANEGU NEU SYMUD ADAR

- 9.1 Gweithdrefn ar gyfer dadheintio a rheoli cerbydau wrth y mynediad i'r safle: gatau penodol, diheintio teiars a bwâu olwynion, rheoli symudiadau o fewn y safle.
(Gellir cyfeirio at y protocol Mynediad i Gerbydau ar wahân)
- 9.2 **Disgrifio statws y timau dal: e.e. cyflogeion llawn amser y cwmni, sefydliadau ar wahân o dan gontract i'r cwmni, ac ati.**

- 9.3 **Gweithdrefn ar gyfer atal mynediad i'r tîm dal neu ddsbarthu a gyrwyr i weddill y safle.**
- 9.4 **Yn achos ieir gwag, gweithdrefn ar gyfer trosglwyddo adar o gewyll dal y cwmni i gewyll cludo'r cerbydau.
Yn achos trosglwyddo o safle magu i safle dodwy, dylid rhoi manylion llawn y gweithdrefnau trin cewyll**
- 9.5 Darparu dillad diogelu ar gyfer y timau dal/dosbarthu.
- 9.6 Gweithdrefnau diheintio esgidiau ar gyfer y timau dal/dosbarthu.
- 9.7 **Sut a lle y cedwir y cofnod parhaol, sy'n dangos: dyddiad, amser, manylion y personél, manylion y cerbyd, manylion yr adar a'r cytiau perthnasol.**

10. SAFLEOEDD AML-ADEILAD: CYFYNGIADAU SYMUD STAFF

- 10.1 **Manylion pa aelodau o staff a enwebir i weithio ym mha adeiladau, ac a all aelodau o staff gael mynediad i adeiladau y tu allan i'r rhai a ddyrannwyd iddynt ai peidio.**
- 10.2 **Manylion sut mae haint yn cael ei atal rhag cael ei drosglwyddo gan esgidiau os yw aelodau o staff yn symud o un adeilad i un arall.**
- 10.3 **Lleoliad dipiau esgidiau, a manylion y math o ddiheintydd, y crynhoad a'r gofynion adnewyddu, a chyfarwyddiadau i staff am eu defnyddio**
- 10.4 **Lleoliad y cyfleusterau golchi dwylo neu sterileiddio dwylo, a manylion y diheintydd dwylo neu'r hylif sterileiddio, a chyfarwyddiadau i staff am eu defnyddio.**
- 10.5 **Os oes ardal gymunedol neu gymdeithasol i staff, rhowch fanylion sut mae'n rhaid trin oferôls ac esgidiau cyn cymysgu yn yr ardal gymunedol ac ar ôl bod yno.**

11. PERSONÉL: RHAGOFALON CYSWLLT AG ADAR A CHYFYNGIADAU MYNEDIAD

- 11.1 Mae'n rhaid sicrhau ei fod yn waharddedig i unrhyw berson fynd i'r ardaloedd bioddiogelwch ar hyd unrhyw lwybr heblaw am y rhwystr hylendid, ac mae'n rhaid i gynllun ffisegol y safle atgyfnerthu hyn.

- 11.2 Cytundeb a lofnodir gan bob aelod o staff yn nodi na fyddant yn gweithio gyda unrhyw gasgliad o ddofednod nac adar hobi neu anwes na'u cadw na chael unrhyw gyswllt â hwy, ac y byddant yn rhoi gwybod i'r rheolwyr cyn mynd i'r ardaloedd bioddiogelwch uchel os ydynt wedi cael unrhyw gyswllt o'r fath y tu allan i'r compartment hwn yn ystod y 72 awr flaenorol.
- 11.3 Datganiad a lofnodir gan bob ymwelydd yn nodi nad ydyw wedi ymweld ag unrhyw ddofednod nac adar hobi neu anwes, nac wedi gweithio gyda nhw, na chael unrhyw fath o gyswllt uniongyrchol ag adar o'r fath, heblaw am adar o fewn y compartment hwn, yn ystod y 72 awr cyn ei ymweliad â'r safle.
- 11.4 Cofnod mewn ffurf barhaol a hygyrch o bresenoldeb pob aelod o staff, a phresenoldeb pob ymwelydd â'r safle.
- 11.5 **Cofnod ysgrifenedig o'r weithdrefn wrth y rhwystr hylendid ar gyfer tynnu dillad ac esgidiau allanol, gadael bagiau neu sachau teithio ar yr ochr 'fudr', cael cawod a gwisgo dillad diogelu glân ar gyfer y tu mewn.**
- 11.6 **Cyfarwyddiadau i staff am reoli risg heintio wrth ddod ag eitemau personol (bocsys bwyd, ffonau symudol, papurau newyddion ac ati) i'r ardaloedd bioddiogelwch uchel.**
- 11.7 **Gweithdrefn ar gyfer diheintio offer neu gyfarpar a ddaw gweithwyr cynnal a chadw, arolygwyr ac ati, â hwy i'r safle.**
- 11.8 **Gweithdrefn i leihau risg os oes angen i bersonél fynd i mewn i'r safle, am resymau brys, o fewn y 72 awr benodedig o amser heb gyswllt ag adar.**

12. CWARANTÏN AR GYFER ADAR O'R TU ALLAN I'R COMPARTMENT

D.S: Y Cwmni sy'n gyfrifol am ddangos nad oes risg bosibl o gyflwyno haint gan adar a geir yn allanol.

- 12.1 Gweithdrefn ar gyfer sicrhau bod y ffynhonnell yn rhydd o glefydau: profi'r heidiau gwreiddiol cyn eu dosbarthu, safonau bioddiogelwch wedi'u dilysu'n annibynnol, ac ati.
- 12.2 Nodi amodau ar gyfer safle'r fferm cwarantîn: gellir cynnal cwarantîn ar fferm fagu neu ddodwy wyau gyffredin o fewn y compartment, ond mae'n rhaid iddi fod yn rhydd o unrhyw adar eraill yn ystod y cyfnod cwarantîn.

- 12.3 **Nodi trefniadau staffio: ni ddylai personél sy'n gweithio ar safle'r cwarantîn ymweld ag unrhyw safle arall y compartment na chael cyswllt uniongyrchol ag unrhyw adar o gowlas arall yn ystod cyfnod y cwarantîn.**
- 12.4 Protocol ar gyfer profi'r adar mewn cwarantîn ar ôl iddynt gyrraedd ar gyfer presenoldeb firsau ffliw adar a chlefyd Newcastle.
Y sail ystadegol a argymhellir yw 95% hyder/25% nifer achosion, a profi rhwng 7 a 14 diwrnod ar ôl iddynt gyrraedd, neu rhwng 14 a 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu dodwy.
- 12.5 Gweithdrefn ar gyfer profi adar sy'n marw yn ystod cwarantîn: cyflwyno i'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol i brofi ar gyfer firsau gwaedgyfludio (a allai ddilyn y weithdrefn safonol a ofynnir gan Defra ar gyfer unrhyw ddofednod a fewnforir o Drydedd Gwlad).
- 12.6 **Gweithdrefn i ddiffinio'r broses o gwblhau cwarantîn a derbyn yr adar i mewn i'r compartment. Y safon a argymhellir yw 21 diwrnod llawn o gwarantîn a chael casgliadau clinigol a chanlyniadau seroleg negyddol cyn eu rhyddhau.**

13. RHEOLI CNOFILOD

- 13.1 **Nodwch pwy sy'n gyfrifol am weithrediadau rheoli cnofilod ar y safle. Gall fod yn gyflogeion y cwmni, neu'n weithredwr allanol. Os mai'r olaf ydyw, rhaid cael contract ysgrifenedig gyda'r gweithredwr sy'n cwmpasu'r manylion isod fel isafswm.**
- 13.2 Nifer a lleoliad safleoedd bwydo
- 13.3. Math o abwyd.
- 13.4 Amllder y caiff safleoedd bwydo eu siecio.
- 13.5 Disgrifiwch yr ymatebion a geir pe byddai tystiolaeth o fwy o weithgarwch cnofilod.

14. STAFF: HYFFORDDIANT A GWEITHDREFNAU GWEITHREDU SAFONOL

- 14.1 Rhaglen ysgrifenedig ar gyfer hyfforddiant sefydlu i staff sydd newydd ymuno.
- 14.2 Atodlen ysgrifenedig o'r materion bioddiogelwch i'w cwmpasu yn ystod hyfforddiant sefydlu.

- 14.3 Atodlen ysgrifenedig o'r pwyntiau rheoli critigol i'w hamlygu yn ystod hyfforddiant sefydlu.
- 14.4 **Manylion am unrhyw gymwysterau bioddiogelwch allanol perthnasol y bydd gofyn i staff astudio ar eu cyfer a rhoi cynnig arnynt, e.e. cymwysterau NVQ.**
- 14.5 **Manylion am unrhyw hyfforddiant gloywi mewn gwasanaeth y bydd gofyn i staff ei gyflawni.**
- 14.6 **Hyfforddiant a gweithdrefnau gweithredu safonol penodol i'w darparu a'u teilwra'n benodol i bob maes gwaith.**

15. CYFYNGIADAU MYNEDIAD I GERBYDAU

- 15.1 Giatiau mynediad ac allanfa penodol
- 15.2 **Disgrifiad o'r ardal ddadheintio sy'n rhaid ei diffinio'n glir, gyda dŵr gwastraff wedi'i reoli fel nad yw'n halogi rhannau eraill o'r safle, a'i leoli cyn i'r cerbyd ddod i mewn i'r parth mewnol bioddiogelwch uchel.**
- 15.3 Gweithdrefn ar gyfer dadheintio/diheintio teiars a bwâu olwynion o fewn yr ardal ddadheintio.
- 15.4 **Cofnod o ddadheintio/diheintio a gynhelir ar y safle a'i lofnodi gan aelod cyfrifol o staff ar gyfer pob cerbyd sy'n ymweld.**
- 15.5 **Gweithdrefn i'r gyrrwr gysylltu â staff ar y safle heb ddod i mewn i unrhyw barth bioddiogelwch uchel.**
- 15.6 **Gweithdrefn i ddiffinio a rheoli'r ardaloedd y gall y gyrrwr fynd iddynt.**
- 15.7 **Gweithdrefn i sicrhau bod esgidiau'r gyrrwr yn ddi-risg (ee. darparu esgidiau'r cwmni, diheintio esgidiau, gorchuddion esgidiau tafladwy, ac ati.)**
- 15.8 **Gweithdrefn ar gyfer llwytho/dadlwytho wrth yr ardal bioddiogelwch uchel (gan gynnwys unrhyw gyfarwyddiadau sy'n benodol i gasgliadau o'r storfa wyau).**
- 15.9 Sut a ble y cedwir y cofnod o ymweliad y cerbyd, i ddangos y canlynol: dyddiad ac amser, perchennog y cerbyd, plât cofrestru'r cerbyd, enw'r gyrrwr, llwyth, cyfeiriad diwethaf yr ymwelwyd ag ef, dyddiad ac amser yn ymweld â'r cyfeiriad diwethaf, a chadarnhad y rheolwr o ddadheintio.

16. CYFYNGIADAU AR ADAR GWYLLT: GWAHARDD O SAFLEOEDD

- 16.1 Cadarnhau presenoldeb neu absenoldeb unrhyw achos i ddenu adar gwyllt yn y cyffiniau. Byddai atyniadau arferol yn cynnwys dŵr agored, camlesi neu afonydd, dofednod buarth neu gasgliadau o adar hobi, ffermydd moch yn yr awyr agored, safleoedd tirlenwi, safleoedd ysbwriel, ac ati. Gall 'yn y cyffiniau' fel arfer golygu o fewn 400 metr.
- 16.2 Os caiff unrhyw atyniadau o'r fath eu cydnabod, nodwch unrhyw fesurau ychwanegol a gymerwyd i atal adar gwyllt o safleoedd y compartment, e.e. stribedi atal clwydo uwch ben y mynediadau neu'r allanfeydd i adeiladau ar y safle, ffensio rhwyll caeedig i atal adar dŵr rhag cerdded ar y safle, ac ati.
- 16.3 Os caiff unrhyw atyniadau o'r fath eu cydnabod, nodwch unrhyw fesurau ychwanegol i sicrhau nad yw halogi ysgarthol yn parhau ar y ddaear lle gallai fod yn risg, e.e. amllder gwiriadau gweledol a'r defnydd o bibellau i glirio halogiad o balmentydd concriid o amgylch mynediadau, allanfeydd a llwybrau.
- 16.4 Os caiff unrhyw atyniadau o'r fath eu cydnabod, nodwch fesurau er mwyn sicrhau na ellir cludo halogiad ar esgidiau gweithwyr i mewn i gytiau'r adar, e.e. pob adeilad y tu hwnt i'r rhwystr hylendid wedi'u cysylltu gan system coridorau amgaeedig; pob mynedfa i adeiladau wedi'u diogelu gan system fainc a newid esgidiau, neu system glanhau a dipio esgidiau dwbl, sterileiddio dwylo, ac ati.
- 16.5 Absenoldeb unrhyw atyniad bwyd ar y safle, e.e. porthiant adar wedi'i ollwng, carcasau marw amlwg neu wyau wedi'u torri, ac ati.
- 16.6 Pob agoriad awyru wedi'i ddiogelu gan sgriniau neu strwythurau eraill a gynlluniwyd i atal adar gwyllt rhag dod i mewn.
- 16.7 **Cyfarwyddiadau sefydlog i staff na ddylid gadael unrhyw ddrysau ar agor heb oruchwyliaeth.**